# MELIN GRUFFYDD



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

# cynnwys

**Map 1** – Ffiniau'r Ardal Gadwraeth

## 1. CYFLWYNIAD ..............................................>
1.1 Ardaloedd Cadwraeth
1.2 Gwerthusiadau
1.3 Cyd-destun y Polisi

## 2. ARWYDDOCÂD HANESYDDOL YR ARDAL

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL........................>
3.1 Ansawdd Unigryw y Lle
3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd
3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## 4. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD...>
4.1 Materion
4.2 Cyfleoedd i Wella

## 5. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU......>
5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad
5.2 Manteision Eraill y Gwerthusiad
5.3 Pwysau i Newid
5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

## 6. ARGYMHELLION..........................................>

## 7. YMGYNGHORIAD.......................................>

Atodiad1 - Caniatâd Statudol


Atodiad 2 - Cyngor am Goed a Thirlunio

Atodiad 3 - Adolygiad o'r Ffin

Atodiad 4 - Geirfa

Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir
Diolchiadau
Manylion Cyswllt a Gwybodaeth

# Map 1
# Ffin yr Ardal Gadwraeth



## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hyn mae gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed. Dynodwyd Melin Gruffydd yn Ardal Gadwraeth ym mis Mawrth 1975.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn nodi faint o newid a fu ers y dynodi, penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth. Er mwyn rheoli'r broses hon paratowyd Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth sy'n nodi blaenoriaethau i'r Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd presennol a rhai newydd. Cytunwyd ar y Strategaeth yn 2001, a'i diweddaru ym mis Mawrth 2006.

Mae'r gwerthusiad drafft hwn yn rhoi cyfle i benderfynu a oes angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth; diffinio cymeriad yr Ardal a'r cyfleoedd i wella; ac ar ôl ymgynghori, mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, er mwyn paratoi canllawiau priodol ar ei chyfer.

Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.

# 2 arwyddocâd hanesyddol yr ardal

## Gwreiddiau Hanesyddol Melin Gruffydd

Mae hanes Melin Gruffydd wedi ei gysylltu'n agos â hanes diwydiannol de Cymru, a dyfodd yn gyflym yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn dilyn sefydlu Rheilffordd y Taff Vale a'r datblygu adnoddau glo a haearn ar raddfa enfawr a gafwyd . Chwaraeodd Melin Gruffydd ei ran yn hyn, gan gyrraedd ei frig yn yr 1870au dan berchnogaeth Richard Thomas & Co, a ddaeth i ddominyddu diwydiant tunplat Prydain. Serch hynny, mae hanes Melin Gruffydd yn dyddio'n ôl cyn belled â'r canol oesoedd pan sefydlwyd melin flawd yno a'i gwneud yn felin faenorol Arglwyddiaeth Senghenydd. Enwyd y felin yn Felin Gruffydd yn y cyfnod hwn, ar ôl Gruffydd, yn ôl y sôn, mab Ifor Bach, Arglwydd Senghenydd yn y ddeuddegfed ganrif.







- Gwaith Melin Gruffydd i'r de-orllewin o'r hen gamlas
- Melin rowlio wreiddiol Melin Gruffydd wedi'i storio
- Gwaith Melin Gruffydd cyn ei ddymchwel

Y tirnod mwyaf trawiadol o'r gorffennol diwydiannol yw Pwmp Dŵr Melin Gruffydd. Roedd Camlas Morgannwg, a wasanaethai'r gwaith, unwaith y gamlas fwyaf proffidiol yn y DU ac yn ei hanterth gweithredai dros 200 o gychod camlas arni, yn cludo llwythau o lo a haearn am dros 25 milltir o Ferthyr i Gaerdydd, gan fynd trwy 51 o lociau ar y ffordd. Adeiladwyd Pwmp Melin Gruffydd yn 1807 yn dilyn brwydr gyfreithiol, a arweiniodd at Gwmni Camlas Morgannwg yn cytuno i dalu £700 am ei adeiladu. Yn Loc Melin Gruffydd, roedd angen mecanwaith i bwmpio d r o Afon Gyflenwi Melin Gruffydd er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o dd r i loc y gamlas, a fyddai fel arall yn cael ei gymryd gan waith Melin Gruffydd yn ystod tywydd sych.

Roedd adeiladu'r pwmp yn allweddol i lwyddiant a hirhoedledd gwaith Melin Gruffydd, wrth iddo weithredu am dros 130 o flynyddoedd ac yn eiddo i amryw o berchnogion. Fodd bynnag, roedd cau'r gwaith yn anochel yn dilyn adeiladu Rheilffordd y Taff Vale yn 1841. Caeodd y gwaith yn 1942 ac, yn dilyn hyn, aeth Pwmp Melin Gruffydd yn segur gan ddechrau adfeilio. Er mawr syndod, profodd cadernid y pwmp yn drech nag ymdrechion masnachwyr sgrap i'w ddisodli a pharhaodd yn ei gyflwr suddedig nes 1974 pan lwyddodd project ar y cyd rhwng Cymdeithas Archaeoleg Diwydiannol Oxford House (RISCA), yr Inland Waterways Association a'r Cyngor i adfer y pwmp i'w hen ogoniant, gwella ei osodiad a gosod panel deongliadol i ymwelwyr ddysgu am ei ddiben hanesyddol yn ogystal â hanes byr o Waith Melin Gruffydd. Mae'r hen waith bellach yn safle i ddatblygiad Barrat Homes sy'n ymestyn at fynediad Cadwraeth Natur Fferm y Fforest.

Yn union i'r de o'r pwmp, mae adeiledd arall yn ein hatgoffa o orffennol Melin Gruffydd. Mae'r bont llwybr tynnu haearn bwrw Camlas Morgannwg ar hyn o bryd yn gorwedd yn gyfochrog â glan Afon Gyflenwi Melin Gruffydd ond roedd unwaith yn pontio gorlif o'r gamlas a lifai i ffrwd isaf Melin Gruffydd. Ceir pont debyg rhyw 500 metr i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth sy'n dyddio o 1851.

Ar ôl croesi hen lwybr y gamlas (sydd bellach yn llwybr presennol Tŷ Mawr Road), saif Oak Cottage. Mae'r tŷ hwn yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg a dywedir iddo fod yn dŷ swyddogion Gwaith Melin Gruffydd. Gallai hyn fod wedi bod yn wir hefyd am Dŷ Pen-y-Lan i'r gogledd (sydd bellach wedi ei ddymchwel) a Tŷ Mawr, i'r de o'r Ardal Gadwraeth. Mae Tŷ Mawr yn nodedig am fod y tŷ hynaf sydd wedi goroesi y mae gwybod amdano ym Morgannwg (1583), ac am fod yn gartref i gangen o deulu Matthews o Radur. Gellir cael mynediad ato o'r Hen Tŷ Mawr Road, a oedd yn gyfochrog â glan ddwyreiniol Camlas Morgannwg. Mae rhan o'r hen ffordd hon yn bodoli o hyd ac yn mynd i'r dwyrain heibio Oak

Cottage a'r ardal laswelltog gyfagos. Roedd y rhan hon o Hen T  Mawr Road unwaith yn gwasanaethu tai teras i weithwyr i'r de-ddwyrain o Oak Cottage ac, ymhellach i'r de, Tŷ Mawr ei hun. Yn union i'r dwyrain o Oak Cottage ac ar draws Camlas Morgannwg, safai Lock Cottage unwaith (fel y dangosir ar y ddau fap Arolwg Ordnans isod), a oedd yn gartref i Geidwad y Loc. Tra bod Lock Cottage a'r Gamlas wedi hen ddiflannu, saif Oak Cottage o hyd a chafodd ei adfer yn ddiweddar, gan wella ei naws gynhenid ac ychwanegu at gymeriad hanesyddol yr ardal.


## Mapiau Arolwg Ordnans Melin Gruffydd

### 1878




### 1942









- Pont y Llwybr Tynnu a'r Olwyn Ddŵr
- Oak Cottage a Lock 1890
- Oak Cottage cyn y gwelliannau
- Oak Cottage ar ôl y gwelliannau

## Ansawdd Unigryw y Lle

O ystyried cyn lleied yw maint yr ardal, mae hi'n anodd sefydlu patrwm pendant i'r adeiladau neu raen trefol penodol y gellir eu canfod mewn Ardaloedd Cadwraeth eraill yng Nghaerdydd.  Mae hyn yn bod oherwydd nifer o ffactorau, sydd ynddynt eu hunain yn gwneud Melin Gruffydd yn unigryw.  Yn gyntaf mae Melin Gruffydd wedi ei gysylltu'n agos â'i leoliad naturiol a gwledig.

Wrth deithio o gyfeiriad y de ceir golygfa wledig wrth i waliau deniadol talar Oak Cottage ddod i'r amlwg, sy'n cynnwys Castanwydden aeddfed, cyn gweld wal ffrynt gynhenid wyngalchog y bwthyn, sy'n cyfleu teimlad o orffennol gwledig yr ardal.  Er i rai ychwanegiadau modern gael eu hadeiladu ar Tŷ Mawr Road, atgyfnerthir y teimlad gwledig hwn gan goedlan sylweddol y gellir ei gweld ar hyd arglawdd Afon Taf ac i'r dwyrain gan yr arglawdd uchel, coediog.  Mae'r goedlan hon yn fframio'r olygfa ac yn cyfrannu at leoliad naturiol yr ardal.

Adeiladwyd yr Olwyn Ddŵr a'r Bont Llwybr Tynnu ar Afon Taf, sy'n llifo i lawr y dyffryn gan hyrwyddo coridor ffrwythlon o fywyd gwyllt.  Er nad yw'r adeileddau hyn bellach yn ddibynnol ar yr afon a bod llawer o ardal Melin Gruffydd wedi ei datblygu'n dai, erys eu lleoliad ar lan yr afon, gyda choedlan drwchus yn eu gwahanu o lan y dŵr.

Yn ail, mae'r Ardal Gadwraeth yn gyn safle diwydiannol ac mae ei batrwm a'i gynllun yn adlewyrchu hyn.  Dilynir llwybr cyn Gamlas Morgannwg yn union gan Tŷ Mawr Road, a adeiladwyd yn dilyn cau'r gamlas yn 1942. Mae golygfa o'r ardal o'r awyr (gweler y ffotograff o'r awyr isod) yn dangos sut oedd llwybr y gamlas yn gwyro tua'r gorllewin er mwyn gwasanaethu Gwaith Melin Gruffydd ac yna'n gwyro tua'r dwyrain ymhellach i'r gogledd, a thrwy safle helaeth y gwaith. Mae hyn yn dynodi presenoldeb y gwaith cyn adeiladu'r gamlas ac yn amlygu swyddogaeth ddiwydiannol y gamlas.

Mae'r Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys rhan o hen lwybr y gamlas ar yr Olwyn Ddŵr, y bont llwybr tynnu ac Oak Cottage.  Mae hefyd yn cynnwys rhan o hen ffordd (Tŷ Mawr Road), a oedd yn gyfochrog â glan ddwyreiniol Camlas Morgannwg.  Mae rhan o'r hen ffordd hon yn bodoli o hyd ac yn mynd i'r dwyrain heibio Oak Cottage a'r ardal laswelltog tua'r de.  Safai grŵp o dri thŷ teras i weithwyr unwaith ger yr ardal laswelltog hon, a'r ochr arall i'r hen Tŷ Mawr Road ac, ymhellach i'r de, safai Tŷ Mawr ei hun.

Mae'r Pwmp Dŵr a'r Bont Llwybr Tynnu ger Oak Cottage yn rhoi syniad unigryw o orffennol diwydiannol yr ardal.  Cafodd y ddau eu hadfer i'w cyflwr presennol yn ddiweddar gan gynnig cysylltiad gweledol i ymwelwyr gyda hen Waith Melin Gruffydd, y bu'r ddau'n eu gwasanaethu am ganrifoedd.  Er bod rheiliau diogelwch o amgylch y Pwmp, gall ymwelwyr ei weld yn glir a gosodwyd panel gwybodaeth gerllaw yn nodi hanes y pwmp, yr hen gamlas a'r rhan a chwaraewyd ganddynt yng Ngwaith Melin Gruffydd.







- Coridor Afon Taf o'r awyr, o ochr y gogledd
- Oak Cottage o'r de
- Pont y Llwybr Tynnu a'r Olwyn Ddŵr

# Ffotograff o'r Awyr o Felin Gruffydd Heddiw










- Y Ty Mawr Road Modern (hen lwybr y gamlas)
- Olwyn Ddŵr Melin Gruffydd a'r Panel Gwybodaeth
- Golygfa o'r awyr o Waith Melin Gruffydd 1910

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd Nodweddion

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

Mae Oak Cottage yn Adeilad Rhestredig Gradd II ac mae'n sefyll allan fel prif adeilad tirnod yr ardal. Mae'n anheddiad gwledig, gan gyferbynnu'n fawr â'r datblygiadau modern maestrefol o amgylch. Mae waliau rendr gwyngalchog Oak Cottage a'i dŷ allan yn sefyll o fewn waliau uchel o gerrig llanw, sy'n ymylu'r hen Tŷ Mawr Road a'r ffordd newydd, sef llwybr cyn Gamlas Morgannwg. Mae postyn haearn yn agos at wal gefn Oak Cottage yn arwydd o'i hen leoliad ar ymyl y gamlas. Defnyddiwyd hwn mewn cysylltiad â chyn Loc Melin Gruffydd.

Mae cysylltiad agos rhwng yr Ardaloedd Gadwraeth a'i hamgylchedd naturiol. Mae'r goedlan sylweddol ar lan dwyreiniol Afon Taf, lle mae'r Pwmp Dŵr ac arglawdd Tŷ Mawr, yn cynnig cefnlen naturiol i'r Ardal Gadwraeth. Mae'r ardal laswelltog i'r de o Oak Cottage yn ychwanegu at hyn, gan gynnig golygfeydd di-dor o'r ardal o'r de. Mae Oak Cottage ei hun yn ymgorffori gardd ffrynt ddeniadol wedi ei thirlunio gyda gwrych 'bocs' twt yn dynodi llwybr troed. Gellir gweld yr ardd yn glir dros y waliau cerrig llanw ar hyd Tŷ Mawr Road.

## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Ceir llinellau terfyn clir rhwng y mannau cyhoeddus a mannau preifat yn yr Ardal Gadwraeth.


Mae waliau cerrig llanw uchel Oak Cottage yn amgáu talar y tŷ i'r de a'r gogledd ac mae talcen y tŷ yn ymylu ar yr hen Tŷ Mawr Road a'r Tŷ Mawr Road newydd. Ni cheir tir caeedig i'r de a'r gogledd o Oak Cottage, sy'n dynodi ardaloedd o fannau agored cyhoeddus. O'r herwydd, byddai'r ardaloedd glaswelltog hyn yn manteisio o gynllun tirlunio neu welliannau eraill fel ardal â seddau, gwybodaeth ddeongliadol, a/neu ardal chwarae plant.

Mae Oak Cottage a'r ardd ffrynt wedi eu hamgáu'n dda er y gellir eu gweld yn rhwydd o Tŷ Mawr Road. I'r cefn ceir ffens fetel uchel, sy'n rhan o fan heb fawr o ddiffiniad iddo. Yn ogystal, diogelir ei wal ddwyreiniol rhag cerbydau oddi ar Tŷ Mawr Road gan rwystr cerbydau diolwg, sy'n nodi'r pwynt oedd yn gwahanu'r bwthyn a Chamlas Morgannwg mewn modd ansensitif. Ar ochr ddwyreiniol y bwthyn, mae'r rhan o'r hen Tŷ Mawr Road sy'n dal i fodoli yn ymestyn o'r mynediad i Dŷ Mawr ym mhen de-orllewinol Oak Cottage at y gyffordd a'r Tŷ Mawr Road modern yn y gogledd. Mae angen cynnal gwaith atgyweirio sylweddol i'r ffordd hanesyddol hon. Mae ei hwyneb yn dyllog mewn sawl man ac mae'r ardal laswelltog gyfagos wedi ymledu dros ran o'r ffordd, yn enwedig i'r gogledd o Oak Cottage.

Ceir rheiliau uchel wedi eu paentio dros y Pwmp Dŵr a'r ardal uniongyrchol gyfagos, gan rwystro pobl rhag cael mynediad ato oherwydd y perygl o ddamwain neu achosi anaf ond gan gynnig golwg clir o'r adeiledd a'r panel gwybodaeth. Mae'r cyn Bont Llwybr Tynnu yn gorwedd y tu allan i'r rheiliau hyn a gall y cyhoedd gael mynediad ati. Mae'r Tŷ Mawr Road modern yn gwahanu rheiliau'r Pwmp Dŵr ag Oak Cottage a'r Llwybr Taith Taf cyfagos. Nodir y llwybr yn glir gan ymylfaen uwch a llinellau gwyn yn dynodi'r mannau cerdded a'r mannau seiclo.









- Oak Cottage (o'r cefn)
- Yr Ardal Gadwraeth o'r de
- Y rhwystr cerbydau ar Tŷ Mawr Road
- Tir Caëdig wrth y Pwmp Dŵr

## 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae gan Oak Cottage rai deunyddiau nodedig o ansawdd uchel. Mae wedi cadw llawer o'r deunyddiau sy'n nodweddiadol o'r arddull gynhenid. Adeiladwyd y tŷ o gerrig llanw ond cafodd ei rendro a'i wyngalchu lawer gwaith ers hynny. Heblaw am hyn byddai'r waliau cerrig llanw'n ymddangos yn debyg i'r waliau amgylchynnol, a ddaeth yn fwyaf tebygol o wely Afon Taf gerllaw, gan roi iddynt eu siapiau unigol a'u hymddangosiad llyfn. Estynwyd y cefn yn rhandy dau lawr ag iddo waliau cerrig llanw sydd wedi cael eu gwyngalchu'n syml, gan ddatgelu unigolyddiaeth y cerrig llanw. Mae'r tŷ allan yn nodwedd wreiddiol ac nid oes ganddo rendr. Mae ganddo hefyd waliau cerrig y gellir eu gweld. Ceir mynedfa i dir caeëdig yr ardd drwy gât ddeniadol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sy'n arwain at ddrws pren chwe phanel â ffenest uwch ei ben. Mae pentwr pedwar simnai'r tŷ o frics coch ysgafn a gorchuddir y to gan lechi Cymreig. Heblaw am y tair ffenestr do, pren wedi ei baentio yw deunyddiau'r holl ffenestri a'r drysau.

Yn dynodi cyn safle Oak Cottage ar ymyl y gamlas, ceir postyn haearn a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â hen Loc Melin Gruffydd yn union i'r gogledd-orllewin o Oak Cottage. Mae'n debyg y cafodd y postyn a'r hen bont llwybr tynnu eu gofannu yng Ngwaith Haearn Melin Gruffydd. Adeiladwyd cryn dipyn o Bwmp Dŵr Melin Gruffydd ei hun hefyd allan o haearn ond cafodd ei fwrw fwy na thebyg oddi ar y safle o dan gyfarwyddyd John Rennie a William Jessop. Gwnaed y rhannau mwy gweledol o'r olwyn allan o Dderwen Americanaidd. Adeiladwyd yr olwyn mor gadarn fel y gallodd wrthsefyll ymdrechion masnachwyr sgrap i'w ddisodli yn yr 1950au.

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae Oak Cottage yn cynrychioli arddull gynhenid neu draddodiadol Gymreig. Mae lleoliad y drws a'r simneiau yn awgrymu cynllun cyntedd aelwyd o'r ail ganrif ar bymtheg gyda chegin gynnes i'r chwith a pharlwr i'r dde. Gwnaed gwelliannau i'r tŷ yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan roi iddo ei ffenestri dalennog corniog pren yn ogystal ag adain cegin, a ymestynnwyd yn ddiweddar yn adain deulawr. Ceir disgrifiad manwl o Oak Cottage yn Adran 4.5.

## 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

Fel y soniwyd yn adran 4.1 a 4.2, mae'r goedlan uwchben Oak Cottage a'r goedlan ar hyd Afon Taf yn cynnig ffin naturiol a deniadol i'r Ardal Gadwraeth ac yn adlewyrchu hen leoliad gwledig yr ardal.

Ceir peth tirlunio caled a meddal nodedig yn yr Ardal Gadwraeth. Mae gardd ffrynt Oak Cottage i'w gweld yn glir o Tŷ Mawr Road ac yn cyflwyno tir caeedig wedi ei dirlunio gyda lawnt dwt a rennir yn ddwy gan lwybr deniadol a chanddo wrych 'bocs' o'i amgylch. Mae'r wal amgylchynol ddwyreiniol o gerrig llanw noeth yn nodwedd drawiadol a cheir planhigion wrth ei gwaelod sy'n lliniaru ei hymddangosiad caled. Mewn cyferbyniad â hyn, nid yw cefn Oak Cottage wedi ei dirlunio na'i ddiffinio'n dda ac mae yno ffens fetel uchel, nad yw'n atyniadol iawn. Mae'r man gwyrdd agored i'r de o Oak Cottage yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd. Fodd bynnag, byddai'n manteisio o gynllun i osod planhigion a seddau yno. Lleolir Pwmp Dŵr Melin Gruffydd mewn coedlan naturiol a cheir wyneb tarmac, glân yn arwain o'r stryd a rheiliau wedi eu paentio yn diffinio tir y cyhoedd.









- Oak Cottage – gât haearn
- Pwmp Dŵr
- Waliau ffrynt Oak Cottage
- Oak Cottage – tŷ allan a chlawdd 'bocs'

# 4 materion perthnasol a chyfleoedd

Paratowyd y materion a'r cyfleoedd gwella hyn yn dilyn ymgynghoriad lleol llawn. Maen nhw'n dod â'r prif faterion sy'n wynebu cadwraeth yr ardal at ei gilydd, ac yn cynnig fframwaith ar gyfer cynnal unrhyw welliannau i'r ardal, er mwyn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

## 4.1 Materion

- Ers cwblhau'r cynllun llwyddiannus i adfer Pwmp Dŵr Melin Gruffydd ar ddechrau'r 1990au, ni chafodd y cofadail ei gynnal a'i gadw'n ddigonol sy'n golygu bod rhai rhannau o'r pwmp wedi dirywio a bod y lleoliad yn flêr ac wedi gordyfu. Mae lleoliad y cofadail o fewn tir afon gyflenwi Melin Gruffydd yn golygu ei fod yn arbennig o debygol o ddirywio a gordyfu.

- Mae lleoliad presennol y Bont Llwybr Tynnu Gradd II yn golygu ei fod, o bryd i'w gilydd, yn anweladwy i ymwelwyr. Mae'n agored i'w fandaleiddio, i'w dwyn ac mae'r cyffiniau'n aml wedi gordyfu ac yn lleoliad ar gyfer dympio anghyfreithlon.

- Mae'r fainc a leolir o fewn rheiliau diogelwch y Pwmp Dŵr yn anhygyrch i'r cyhoedd ac nid yw'n gweddu i'w leoliad.

- Nid yw'r mannau agored i'r gogledd a'r de o Oak Cottage yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol, gan arwain at ordyfu yn y lleoliad gwerthfawr hwn.

- Mae gweddill yr hen Tŷ Mawr Road bellach yn dyllog ac anniben.

- Er gwaethaf presenoldeb bwrdd dehongli wrth y Pwmp Dŵr, nid yw'r ymwybyddiaeth gyffredinol o hanes yr ardal yn adlewyrchu pwysigrwydd Gwaith Melin Gruffydd a Chamlas Morgannwg.

## 4.2 Cyfleoedd i Wella

- Cynnal a chadw digonol a rheolaidd o'r adeiledd a lleoliad Pwmp Dŵr Melin Gruffydd er mwyn sicrhau nad yw'r pwmp yn mynd yn adfail parhaol. Dylid ymchwilio i weld os gellid cael arian ar gyfer ei gynnal yn rheolaidd a'i wella.

- Ystyrir byddai'r awgrym i greu cangen newydd o Lwybr Taith Taf, a fyddai'n mynd heibio glan yr afon ym Mharc Hailey, o dan y Bont Reilffordd, i'r gorllewin o'r pwmp dŵr gan ailgysylltu â'r llwybr i'r gogledd o'r pwmp yn fanteisiol i broffil y pwmp ac yn annog gwell cynnal a chadw o ochr orllewinol y pwmp.

- Dylid rhoi ystyriaeth i adleoli'r Bont Llwybr Tynnu Rhestredig Gradd II i leoliad mwy buddiol. Dylid ceisio cael cytundeb ynghylch y lleoliad gorau; fodd bynnag, ystyrir y dylai aros yn yr Ardal Gadwraeth.

- Byddai'r fainc amwynder a leolir o fewn rheiliau diogelwch y Pwmp Dŵr o fwy o fudd petai hi'n cael ei hadleoli, fel rhan o gynllun tirlunio'r man agored i'r de o Oak Cottage, efallai.

- Dylid cynnal gwaith rheolaidd a digonol i gynnal a chadw'r tir i'r gogledd a'r de o Oak Cottage yn ogystal â gweddill yr hen Tŷ Mawr Road. Dylid ystyried gweithredu cynllun i wella safle'r adeiladau rhestredig.

- Dylid gwneud ymdrechion parhaus i godi ymwybyddiaeth o hanes cyfoethog yr ardal trwy ysgolion lleol a Grwpiau Cyfeillion. Byddai cynlluniau i gynnwys gweddill asedau hanesyddol Melin Gruffydd mewn 'Llwybr Treftadaeth' ehangach a fyddai hefyd yn cynnwys Fferm y Fforest a Pharc Hailey yn fanteisiol i'r ardal. Mae cynigion drafft Cynllun Gweithredu Dyffryn Afon Taf yn cynnwys sefydlu cyfarfod cychwynnol gyda phartneriaid posibl fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru, GGAT, Herian a Cadw. Y diben fyddai cyfuno adnoddau ynghylch pwysigrwydd hanesyddol y Dyffryn ac, yn benodol, arwyddocâd treftadaeth y rhain mewn perthynas â datblygiad diwydiannol y dyffryn.

# 5 framwaith ar gyfer gweithredu

Mae rhannau blaenorol o'r ddogfen hon yn disgrifio'r nodweddion a'r elfennau o ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi ble mae'n bosibl gwella'r ardal. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ffyrdd y gellir defnyddio'r ddogfen er budd yr Ardal Gadwraeth.

## 5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- Creu cynllun gwella i arwain datblygiadau yn yr ardal.
- Hysbysu'r asesiadau o geisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 2.53 y Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd hyd nes y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu.
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar ansawdd arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 5.2 Manteision Eraill y Gwerthusiad

Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.

- Cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth drwy gadw, gwella a chynnal a chadw'r nodweddion a nodwyd yn y gwerthusiad sy'n cyfrannu at ei chymeriad.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad cyhoeddus o gymeriad arbennig yr ardal a'i hanes diwydiannol cyfoethog.
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo lleol ac i grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a'i chadw'n ardal ddeniadol i fyw ynddi.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffurfiau a'r cynlluniau presennol.
- Creu cynllun gwella i arwain mwynhad o'r ardal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 5.3 Pwysau i Newid

Mae cryn dipyn o bwysau a gofynion sy'n gweithio yn erbyn cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwysau parhaol i addasu ac ymestyn adeiladau a gerddi.
- Colli tirwedd feddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, ymylon glaswelltog, gerddi a choed.
- Tagfeydd traffig, parcio ar y stryd a'r defnydd trwm o Tŷ Mawr Road yn ystod yr oriau traffig brig.
- Cynllun a lleoliad arwyddion ffyrdd, dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo.

# 5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

## Perchnogion Eiddo

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 3 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, a cheir canllawiau penodol yn yr atodiad sy'n rhoi cyngor am ddiogelu adeiladau mewn cynlluniau datblygu. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

## Y Cyngor

Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

1. Mabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodwyd yn Atodiad 1 a 2.

2. Rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol er mwyn gwella tir y cyhoedd.

    - Cynnal a chadw digonol o Bwmp Dŵr Melin Gruffydd, ei wella a'i ddehongli'n ddigonol.
    - Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd.
    - Hamdden, Llyfrgelloedd a Pharciau – Gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd yn ôl y galw.
    - Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau.

3. Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol Ardal Gadwraeth Melin Gruffydd, a hynny drwy ysgolion a llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill.

## 6 Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r Gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnhau mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gwei thredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.
- Sefydlu gwell cyfathrebu gyda'r Cyngor Cymuned, grwpiau a thrigolion lleol mewn partneriaeth â Grŵp Ymgynghori ar Ardaloedd Cadwraeth Gogledd-orllewin Caerdydd.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad ar gael i'w astudio yn y llyfrgelloedd a'r ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mabwysiadu'r ffin newydd a argymhellir yn Adran 2 a hysbysebu hynny'n unol â'r Ddeddf.

## 7 Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 029 2087 3485 i gael gwybodaeth am Adeiladau Rhestredig a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pholisi cynllunio.

# Caniatâd Statudol

## Caniatâd Adeilad Rhestredig

Yn achos Ardal Gadwraeth Melin Gruffydd, diogelir yr holl adeiladau/adeileddau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Rhestrwyd dau adeilad/adeiledd yn rhai o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

Rhaid i berchnogion yr eiddo hyn hefyd gael Caniatâd Adeilad Rhestredig, drwy'r Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn newid, ymestyn neu ddymchwel unrhyw ran o adeilad, yn fewnol nac allanol, mewn modd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ei nodweddion pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

## Henebion Hynafol Cofrestredig

Cyn bo modd gwneud unrhyw waith, newidiadau neu gloddio archeolegol, ar safle heneb gofrestredig, yn yr achos hwn Pwmp Dŵr Melin Gruffydd, mae'n rhaid cael Caniatâd Heneb Gofrestredig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, swyddogaeth a weinyddir gan Cadw. Gellir cysylltu â Cadw dros y ffôn ar 014433333 6000 neu yn:

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Efallai hefyd y bydd angen i chi gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. Bydd modd i swyddog rheoli'r Cyngor roi cyngor i chi am y rheoliadau.

# atodiad 2

## Cyngor am Goed a Thirlunio

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, waliau a gatiau. Mae amryw o nodweddion tirlunio fel lleiniau ymyl, cloddiau a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ystyriaethau perthnasol wedi'u nodi isod os ydych chi'n cynllunio gwaith sy'n ymwneud â'r nodweddion hyn.

## Coed

Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diogelu. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i wneud gwaith ar goed sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) o ddiamedr, ar bwynt sydd 1.5 metr (tua 5 troedfedd) o uchder. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'n rhoi caniatâd gall yr Awdurdod roi Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall y llys eu rhoi am beidio â chyflwyno'r cais yn rhai difrifol - yr un mor ddifrifol â'r cosbau y gellir eu rhoi os byddai'r coed yn destun Gorchymyn Cadw Coed.

Nid yw gwaith yn golygu torri neu ddymchwel coeden yn unig, ond tocio neu ddifrodi gwreiddiau a changhennau hefyd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, oni bai bod perygl y funud honno, i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn tybio fod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol. Fel rheol, bydd angen ailosod coed a ddymchwelir yn anghyfreithlon, neu a ddymchwelir heb fod eithriad yn berthnasol. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Drwy wneud hynny, ni fydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân o dan y rheoliadau sy'n diogelu coed – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed o dro i dro ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Rheolir coed ar briffyrdd, neu mewn parciau, gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maent yn destun cyfundrefn reoli tymor hir a arolygir gan arbenigwr coed.

## Ailblannu Coed sy'n Dirywio

Mae hi'n bwysig ailblannu coed newydd os yw coed yn dirywio. Dylid plannu coed newydd wrth i'r hen goed gael eu dymchwel. Dylai'r holl goed fod yn rhywogaethau priodol. Dylai Swyddogion Cadw Coed allu'ch cynghori am rywogaethau priodol ar gyfer eich sefyllfa benodol chi.

## Cloddiau a Ffiniau Eraill

Mae cloddiau'n boblogaidd ar ffiniau yn yr Ardal Gadwraeth ac yn cyfrannu'n sylweddol at y tirlunio meddal. Wrth gynnal a chadw ac adfer cloddiau, mae hi'n bwysig plannu rhywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal. Gallai Swyddogion Cadw Coed gynghori ynghylch y rhywogaethau priodol.
Dylai waliau ffiniol adlewyrchu cymeriad yr ardal. Ceir amryw o waliau cerrig llanw traddodiadol yn yr ardal, gyda rhai ohonynt yn waliau cerrig sychion. Dylai waliau o'r fath gael eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i sicrhau bod y gwaith carreg a'r morter yn parchu'r strwythur gwreiddiol. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei chynnal neu ei hailbwyntio mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol. Os oes angen ail-bwyntio, argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

# Adolygiad o'r Ffin

Un o elfennau allweddol Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth yw adolygu ei ffiniau. Prif bwrpas adolygu'r ffiniau yw sicrhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i arddangos nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg.

Mae'r asesiad wedi canolbwyntio ar ardaloedd a allai gael eu cynnwys neu eu hepgor o'r Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn un cadarn a dilys, a'i fod yn dynodi ardal sydd â chymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig.

# Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Hepgor

Ychydig o newid a fu yn yr Ardal Gadwraeth ers ei dynodi yn 1975. Bu Oak Cottage a'r Pwmp Dŵr yn destun cynlluniau i'w gwella ac mae'r ddau yn deilwng o hyd i'w cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth. Nid oes yr un ardal i'w hepgor o'r Ardal Gadwraeth.

# Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Cynnwys

Nodir yn y gwerthusiad hwn bod yr ardal laswelltog i'r gogledd a'r de o Oak Cottage yn ogystal â gweddill yr Hen Tŷ Mawr Road a'r briffordd fwaog gyfagos (hen lwybr y gamlas a'r Tŷ Mawr Road modern), yn ychwanegu at naws wledig Oak Cottafe a lleoliad Pwmp Dŵr a Phont Llwybr Tynnu hanesyddol Melin Gruffydd. Cydnabyddir bod presenoldeb y ddau yn cyfrannu'n fawr at gymeriad yr ardal ac at naws y lle yn Ardal Gadwraeth Melin Gruffydd ac yn deilwng i'w cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.


Cynigir felly ymestyn yr Ardal Gadwraeth i gynnwys yr ardaloedd uchod. (gweler y Map Ffin a Dynodi isod).





- Yr Ardal Gadwraeth o'r de
- Yr Oak Cottage o'r gogledd

# Map y Ffin a'r Dynodi




Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda Chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu yn torri hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Caerdydd. LA 09005L

## Geirfa

**Rheoliadau Adeiladu** - rheolau cyfreithiol neu statudol sy'n galluogi cynghorau lleol i reoli ansawdd adeiladau. Eu bwriad yw sicrhau diogelwch ac iechyd y cyhoedd, a safonau adeiladu derbyniol gofynnol.

**Yr Amgylchedd Adeiledig** – unrhyw adeilad, cofadail neu adeiledd.

**Cadw** – adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Eu bwriad yw hyrwyddo cadwraeth a'r gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae hyn yn cynnwys adeiladau hanesyddol, cofebion hynafol, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau ac archaeoleg danddwr.

**Ardal Gadwraeth** – ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, y dylid cadw neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad.

**Talar** - ardal o dir sy'n amgylchynu eiddo o fewn ei ffiniau.

**Ansawdd Unigryw y Lle** - Term sy'n disgrifio cymeriad arbennig ardal, sy'n aml yn cyfuno topograffi, datblygiad hanesyddol, y defnydd presennol yn ogystal â nodweddion fel strydoedd, cloddiau, cofadeiladau archeolegol, adeiladau ac enwau lleoedd.

**Elevation** – the outer appearance, or facade of a building.

**Talcen** – wal adeilad, y rhan uwch, siâp triongl.

**Adeilad Tirnod** - adeilad sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

**Adeilad Rhestredig** - adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. Ni ellir ei ddymchwel na newid ei ymddangosiad allanol, na'i ymddangosiad mewnol mewn rhai achosion, heb ganiatâd ffurfiol.

**Estyniad Cefn** – estyniad yn y cefn, wedi'i gysylltu ag adeilad.

**Rendr** – gorchudd plastr, calch neu sment.

**Carreg wyneb y graig** – carreg naturiol heb ei rendro, sy'n aml yn dangos toniadau ac ansawdd naturiol.

**Ffenestr do** – agoriad â gwydr arno mewn to.

**Cerrig Llanw** – cerrig o siâp a maint afreolaidd mewn morter.

**Graddfa** – maint cymharol gwrthrych.

**Ffenestri Dalennog** – ffenestr gyffredin ar eiddo hanesyddol lle ceir dwy ran i ffenestr, yn agor drwy lithro un rhan dros y llall.

**Gorchymyn Cadw Coed** - yn diogelu'r coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud hi'n drosedd i dorri, tocio, dadwreiddio, niweidio neu ddinistrio coeden a nodir yn y Gorchymyn, neu ganiatáu i hyn ddigwydd, heb wneud cais am ganiatâd ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol.

**CDU** – Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Adneuwyd 2003).

**Graen Trefol** -patrwm a threfniant blociau a phlotiau'r stryd.

**Golygfa** – golygfa ganolig i bell.

# Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir


- The Buildings of Wales: Glamorgan – John Newman (1995)
- The Illustrated History of Cardiff's Suburbs – Dennis Morgan (2003)
- Glamorgan Historian Vol. 1 – Stewart Williams (1963)
- Cynllun Lleol Dinas Caerdydd – Cyngor Dinas Caerdydd (1996)
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Wedi'i Adneuo) Cyngor Sir Caerdydd 2003
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth – Cyngor Sir Caerdydd (1997)
- Cynllun Ailosod Strwythur De Morgannwg (Ardal Caerdydd) 1991-2011 – Cyngor Sir Caerdydd (1997)
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol


Gellir cael manylion Adeiladau Rhestredig, coed a ddiogelir ar hyn o bryd gan Orchmynion Cadw Coed a'r dogfennau polisïau cynllunio y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon gan y Tîm Cadwraeth.

# Diolchiadau


Parc Gwledig Fferm y Fforest a Chyfeillion Fferm y Fforest

Steve Nicholas o Whitchurchandllandaff.co.uk

Cymdeithas Hanes Lleol Radur a Phentre-poeth

Cymdeithas Hanes Diwydiannol Oxford House, Risca

Cadw Henebion Cymru

Archifdy Morgannwg


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth


**Y Tîm Cadwraeth**
**Cynllunio Strategol**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,**
**Caerdydd, CF10 4UW**
**Ffôn: (029) 2087 3404/3477**

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a’r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3404